# Cyfarfod Y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPNAB)

# Cofnodion

**5 Mawrth 2019 – Caerdydd, Ystafell Gyfarfod 2, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Daniel Groves (DG) | Cadeirydd (Annibynnol) |
| Katie Dalton (KD) | Cymorth Cymru |
| Nigel Stannard (NS) | Cynrychiolydd Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl |
| Cheryl Emery (CE) | Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Harry McKeown (HMK) | Cynrychiolydd Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Michelle Church (MC) | Cadeirydd Grŵp Cyllid ac Ymchwil Strategol |
| Diana Binding (DB) | Prawf |
| Helen Northmore (HN) | Annibynnol |
| Josie Smith (JS) | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Lance Carver (LC) | Cynrychiolydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS) |
| Angela Lee (AL) | Cynrychiolydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (RCC) |
| Jim McKirdle (JM) | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) |
| Liz Cook (LC) | Llywodraeth Cymru |
| Karl Thomas (KT) | Llywodraeth Cymru |
| Emma Williams (EW) | Llywodraeth Cymru |
| Angharad Rogers (AR) | Llywodraeth Cymru |
| Paul Webb (PW) | Llywodraeth Cymru |
| Julie Llewellyn (JL) | Llywodraeth Cymru |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Frances Beecher (FB) | Cadeirydd Gweithgor Llywodraethu |
| Keiron Montague (KM) | Aelod annibynnol |
| Sarah Rhodes (SR) | Llywodraeth Cymru |
| Naomi Alleyne (NA) CLlLC | |

| Nodyn | Cam gweithredu |
|---|---|
| **1. Croeso a Chyflwyniadau** | |
| Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.<br>. | |
| **2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi** | |
| • Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod ar 19/09/18 fel cofnod cywir.<br>• Mae diweddariad ar y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol i'w weld ar ddiwedd y cofnodion. | |
| **3. Diweddariad gan Lywodraeth Cymru** | |
| **Adborth gan Grŵp Llywio Grant Cymorth Tai**<br>• Mae Grŵp Llywio Grant Cymorth Tai wedi'i greu a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd 2018. Diben y grŵp yw dylunio dull cydgynhyrchiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid a fydd yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu trefniadau gweinyddol, llywodraethu, cynllunio a monitro priodol ar gyfer y Grant Cymorth Tai.<br>• Cytunwyd y dylid creu dogfen Negeseuon Allweddol a'i dosbarthu ar adegau priodol er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau pwysig i'r Grant Cymorth Tai. Mae dwy ddogfen eisoes wedi cael eu creu.<br>• Gwnaeth y Grŵp Llywio gwblhau ymarfer mapio rhanddeiliaid er mwyn nodi holl randdeiliaid y Grant Cymorth Tai, a'r dulliau mwyaf priodol o ymgysylltu â phob un ohonynt. Mae cynllun cyfathrebu wedi cael ei lunio.<br><br>**Adborth gan Ddigwyddiadau Ymgysylltu y Grant Cymorth Tai**<br>• Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mis Chwefror 2019 yng Nghanolbarth, Gogledd a De Cymru. O ganlyniad, roedd Llywodraeth Cymru yn gallu ymgysylltu â thua 140 o randdeiliaid ym mhob rhan o'r sector. Caiff yr holl adborth ei ddadansoddi, ond mae'n rhy gynnar i ddod i unrhyw gasgliadau y gellir eu rhannu â'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl. Mae PW hefyd yn ymgysylltu'n ehangach â sefydliadau perthnasol eraill yn ogystal â chydweithwyr polisi Llywodraeth Cymru.<br>• Gofynnodd NS beth roeddem am gyflawni erbyn 2020, a'r cynllun ar gyfer awdurdodau lleol? Nododd PW y bydd awdurdodau lleol (ALlau) yn parhau â busnes fel arfer eleni heb unrhyw newidiadau sylweddol, ond dylai ALlau fod yn ystyried y ffordd y maent yn rheoli'r broses newid yn fewnol a phenodi un arweinydd strategol er mwyn cysoni'r Grant Cymorth Tai a'r Grant Cymunedau a Phlant.<br>• Gofynnodd DG am y brif broblem a nodwyd gan randdeiliaid yn dilyn y penderfyniad ar y ddau grant. Eglurodd PW fod y rhanddeiliaid yn pryderu ynghylch y ffaith mai dim ond tan ddiwedd tymor y Cynulliad yr | |

ymrwymwyd i'r dull cyfredol. Mae pryder y bydd hyn yn cyfyngu ar gynlluniau strategol hirdymor. Ychwanegodd KD fod Cymorth a Chartrefi Cymunedol Cymorth yn dadlau dros ymrwymiad hirach er mwyn rhoi amser i sefydlu a rhoi sail dystiolaeth ar waith.

- Gofynnodd HMK am y cynllun ymgynghori ac ymgysylltu er mwyn rhoi'r Grant Cymunedau a Phlant ar waith. Eglurodd PW fod y Grant Cymunedau a Phlant yn fwy cymhleth na'r Grant Cymorth Tai gan fod angen cyfuno saith rhaglen wahanol ar ei gyfer a gan mai awdurdodau lleol yw'r prif randdeiliaid. Cynhaliwyd cyfarfodydd unigol ar y cyd ag awdurdodau lleol nad ydynt yn braenaru i'w helpu i baratoi ar gyfer y ddau grant, a chaiff cyfarfodydd rheolaidd eu cynnal o hyd ag awdurdodau braenaru.

**Fframwaith Canlyniadau Sengl**

- Caiff Fframwaith Canlyniadau Sengl ei ddatblygu i gwmpasu'r ddau grant. Cafodd arweinwyr Cefnogi Pobl eu gwahodd i fynychu gweithdy ym mis Ionawr. Yn dilyn y gweithdy, cafodd Fframwaith Canlyniadau drafft ei rannu ar ddiwedd mis Chwefror yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru ac mae'n rhoi rhywfaint o arweiniad ar fesur llwyddiant y ddau grant. Mae grŵp data yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd (dan arweiniad y Tîm Archwilio Opsiynau Ariannu) a fydd yn helpu i ddatblygu strategaeth ddata fel sail i'r Fframwaith Canlyniadau. Bydd y grŵp yn cynnwys cymysgedd o gynrychiolwyr o ALlau, Llywodraeth Cymru ac eraill.
- Tynnodd KD sylw ar y ffaith y dylai'r grŵp data canlyniadau gynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau eraill yn hytrach nag awdurdodau lleol yn unig h.y. darparwyr.

**Fframwaith Adrodd am Brosiectau'r Grant Cymorth Tai**

- Mae Llywodraeth Cymru wedi creu Tîm Prosiect mewnol ar gyfer y Grant Cymorth Tai a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 30 Ionawr. Diben tîm y prosiect yw derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan bob ffrwd gwaith ac ystyried eu hargymhellion ar y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Grant Cymorth Tai.
- Hefyd, cytuno ar gyngor i Weinidogion ar y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Grant Cymorth Tai a nodi a rheoli'r problemau a'r risgiau a all godi.
- Rheoli'r gwaith o ddatblygu, gweithredu a dyrannu'r Grant Cymorth Tai i awdurdodau lleol drwy gynnal trosolwg o Gynllun Gweithredu Prosiect y Grant Cymorth Tai.
- Bydd Arweinydd y Prosiect yn llywio ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Gweithredu.

**Camau Nesaf y Grant Cymorth Tai**

- Ymgynghori ar y canllawiau drafft ar gyfer Grant Cymorth Tai Hydref 2019.

<table>
<tr><td><ul><li>Cwblhau'r Canllawiau ar gyfer y Grant Cymorth Tai erbyn mis Chwefror 2020.</li></ul></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">4. Blaenoriaethau'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPNAB) ar gyfer y Dyfodol ac Is-grwpiau ar ôl Ebrill 2019</td></tr>
<tr><td><ul>
<li>Cyflwynodd PW y cwestiynau y mae angen i'r grŵp eu hystyried. Beth yw dyfodol SPNAB, beth rydym yn ceisio ei gyflawni ac a yw'r aelodau presennol yn addas ar gyfer y diben hwnnw felly?</li>
<li>Teimlwyd bod angen i SPNAB fod yn fwy strategol er mwyn gallu rhoi cyngor i'r Gweinidog.</li>
<li>Dylai'r grŵp hefyd fod yn ystyried materion perthnasol ehangach ac ymhellach i'r dyfodol. Dylai SPNAB greu cysylltiadau gwell â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Digartrefedd a Rhwydwaith Tai yn Gyntaf.</li>
<li>Mae angen ystyried aelodau presennol SPNAB a dylid cynnwys mwy o gynrychiolwyr o'r sector digartrefedd.</li>
<li>Trafodwyd yr is-grwpiau presennol, yr aelodau a'r ffaith na ddylid colli arbenigedd y grwpiau. Cytunwyd y dylai SPNAB gomisiynu gwaith i'r grwpiau ei gwblhau eleni.</li>
<li>Cytunodd y grŵp ar y canlynol yn dilyn y drafodaeth:
<ul>
<li>Ymgynghori â'r Gweithgor Llywodraethu ar y cynigion ar gynnwys Dogfen Ganllaw y Grant Cymorth Tai.</li>
<li>Y Grŵp Cyllid ac Ymchwil i ganolbwyntio ar gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Canlyniadau Sengl a'r grŵp data.</li>
<li>Bydd y Grŵp Ymchwil a Gwerthuso yn parhau i ganolbwyntio ar gynnal prosiect SAIL.</li>
</ul></li>
<li>Hoffai'r Cadeirydd gomisiynu pobl yn y dyfodol i roi cyflwyniadau mewn cyfarfodydd SPNAB ar faterion ehangach sy'n ymwneud â'r Grant Cymorth Tai yn strategol.</li>
</ul></td><td>JL i drefnu cyfarfod ar gyfer y Grŵp Llywodraethu<br><br>PW i gomisiynu gwaith ar gyfer y Grŵp Cyllid ac Ymchwil<br><br>Anfon cyngor at y Gweinidog ar y newidiadau y cytunwyd arnynt</td></tr>
<tr><td colspan="2">5. Adolygu'r Gwasanaethau Anableddau Dysgu</td></tr>
<tr><td><ul><li>Amlinellodd LC gwmpas y gwaith y mae'n ei gwblhau mewn ymateb i argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru i "ystyried p'un a ddylid cadw'r cyllid ar gyfer y Grant Cymorth Tai neu ei drosglwyddo ar gyfer gofal cymdeithasol"</li></ul>
Bydd yr ymchwil yn edrych ar y canlynol:<br>
(a) Faint o gyllid sy'n dod o raglen Cefnogi Pobl, Gofal Cymdeithasol neu gyllidebau eraill?<br>
(b) Y gwahaniaethau rhwng cyllid Awdurdodau Lleol a'r rhesymau pam?
<ul><li>Mae ymchwil yn cael ei chomisiynu a chaiff ei thendro yn ystod mis Mawrth 2019.</li></ul></td><td>Anfon copi o'r fanyleb at y grŵp</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| • Ni wnaed unrhyw benderfyniadau ac mae gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei gynnal ar hyn o bryd er mwyn deall barn rhanddeiliaid ar gyllid nawr ac yn y dyfodol.<br>• Gofynnodd LC a ydynt yn ystyried y cyllidebau ar gyfer iechyd fel rhan o'r gwaith hwn gan y byddant yn rhoi darlun mwy cyflawn. Liz Cook i ystyried hyn.<br>• Gofynnwyd i'r grŵp gysylltu â LC os oes ganddynt unrhyw gwestiwn penodol neu i wneud sylwadau ar y gwaith. | |
| **6. Dyrannu'r Grant Cymorth Tai – Ymchwil ar Gyllid** | |
| • Amlinellodd KT y gwaith sy'n cael ei gwblhau i ystyried ailddyrannu'r cyllid. Mae ymchwil yn cael ei chomisiynu a chaiff ei thendro yn ystod mis Mawrth 2019. Bydd yr ymchwil yn edrych ar y canlynol:<br>(a) Fformiwla bresennol Aylward i ddeall ei chryfderau a'i gwendidau<br>(b) Cwblhau gwaith ymchwil i ddeall ystyriaethau allweddol i ddatblygu fformiwla newydd o safbwynt awdurdodau lleol<br>(c) Datblygu opsiynau ar gyfer fformiwla dyrannu cyllid newydd | Anfon copi o'r fanyleb at y grŵp |
| **7. Digwyddiadau Defnyddwyr Gwasanaethau Cymorth - Adborth** | |
| • Trefnodd Cymorth Cymru dri digwyddiad ym mis Ionawr ar ran SPNAB i wrando ar farn a phrofiadau'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl yng Nghymru. Cawsant eu cynnal yng Nghaerfyrddin, y Rhyl a Chaerdydd ac roedd tua 100 o bobl yn bresennol. Roedd y trafodaethau yn canolbwyntio ar gyfres o gwestiynau, gan gynnwys 'Beth sy'n Bwysig i Chi?', 'Beth sy'n Gweithio'n Dda?' a 'Beth y Gellir ei Wella?'. Roedd y themâu yn cynnwys pwysigrwydd tosturi, parch a dull anfeirniadol, yr angen i roi cymorth hyblyg ac sy'n canolbwyntio ar y person a'r anhawster o ran dod o hyd i lety camu ymlaen addas a fforddiadwy. Mae arolwg electronig hefyd wedi'i greu, er mwyn galluogi'r bobl a oedd yn methu â dod i'r digwyddiadau roi ei barn. Mae dros 80 o bobl wedi cwblhau'r arolwg. Bydd Cymorth yn ysgrifennu adroddiad dros yr ychydig fisoedd nesaf yn crynhoi barn a phrofiadau pobl o'r digwyddiadau hyn. | |
| **8. Diweddariadau** | |
| **Digartrefedd**<br>• **Cysgu ar y Stryd:** Mae Cymorth Cymru yn cynnal yr ail gyfres o hyfforddiant PATH ar hyn o bryd ac mae 650 o bobl eisoes wedi'i gwblhau a chaiff 250 ychwanegol eu hyfforddi yn 2019/20 i wella ymarfer y gweithlu sydd wedi'i lywio gan drawma. Mae Cymorth Cymru hefyd ar fin cwblhau eu dogfen ganllaw ar allgymorth pendant, a fydd yn cynnwys enghreifftiau o ddulliau effeithiol. Bydd y pwyllgor yn gwneud ymholiad i | |

| | |
|---|---|
| Gysgu ar y Stryd ar 21 Mawrth 2019 gan edrych ar bob agwedd ar gysgu ar y stryd ers y llynedd. Mae dwy ddogfen ganllaw yn y camau olaf o gael eu drafftio; dyletswyddau llety interim a chysylltiad lleol. Caiff y dogfennau hyn eu cyhoeddi y gwanwyn hwn.<br>• **Tai yn Gyntaf:** Cytunwyd ar gyllid ar gyfer pedwar prosiect braenaru Tai yn Gyntaf. Mae'r prosiectau ar gyfer Conwy/Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd. Cadarnhaodd yr adborth cynnar gan y prosiect yng Nghaerdydd (a dderbyniodd gyllid gan y cyllid peilot cynharach), nad oes dim un o'r 11 o unigolion sydd wedi cael cymorth i gael llety, wedi gorfod mynd i'r adran ddamweiniau ac achosion brys a dim ond un achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol y rhoddwyd gwybod amdano yn y grŵp cyfan.  Er nad yw'r wybodaeth wedi'i chofnodi'n systematig, mae'r gweithwyr cymorth o'r farn ei fod yn leihad sylweddol o gymharu â'r rhyngweithiadau cyn ymyrryd.<br>• **Digartrefedd Ieuenctid:** Mae'r swyddogion wrthi'n adolygu'r ceisiadau ar gyfer y grant cymorth ieuenctid, yn enwedig y £3.7m o gyllid a ddyrannwyd ar gyfer digartrefedd ieuenctid. Mae'r ceisiadau wedi'u rhyddhau ar gyfer y Gronfa Arloesi a'r terfyn amser yw diwedd y mis. Bydd y swyddogion yn cydweithio â'r ymgeiswyr llwyddiannus i nodi cyllid cyfalaf, os bydd ei angen. Rydym wrthi'n cydweithio'n agos â Shelter Cymru ar hyn o bryd i ddatblygu cynllun ar gyfer gwasanaeth cynghori pwrpasol i bobl ifanc. Rydym hefyd wrthi'n llunio cynllun ar gyfer darn o waith sy'n ymwneud â chyfathrebu ac ymgysylltu er mwyn gwella'r wybodaeth am ddigartrefedd a chyfeirio pobl at gymorth a chyngor. Caiff y rhain eu gosod ar dendr, a byddant yn ymddangos ar wefan GwerthwchiGymru unwaith y bydd y manylion terfynol wedi'u datblygu.<br><br>**Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl (SPIN)**<br>• Cafodd cyfarfod diwethaf y Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl ei gynnal ar 15 Ionawr yng Nghanolbarth Cymru ac roedd yn gyfarfod ar y cyd â'r Rhwydwaith Digartrefedd.<br>• Roedd agenda lawn yn cynnwys cyflwyniadau ar y canlynol: Gwnaeth Opsiynau Tai Caerdydd roi cyflwyniad ar fewnbwn Cefnogi Pobl ar atal digartrefedd a'u taith tuag at greu system casglu data ar y cyd. Mae gweithwyr cymorth, gweithwyr achosion opsiynau tai a swyddogion PRS sy'n cydweithio'n agos yn darparu gwasanaeth gwell i'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sydd ar fin bod yn ddigartref.<br>• Gwnaeth Is-adran Cartrefi a Lleoedd Llywodraeth Cymru roi cyflwyniad ar y cynllun i ddod o hyd i arloeswyr i dreialu cynllun newydd i gaffael eiddo gan landlordiaid preifat o dan brydles hir. Yna câi'r eiddo eu gosod ar rent ar gyfraddau Lwfans Tai Lleol i aelwydydd ar incwm isel. Byddai landlordiaid yn derbyn rhent gwarantedig am gyfnod y brydles, gan gynnwys unrhyw gyfnodau lle y mae'r eiddo'n wag. | |

| | |
|---|---|
| • Gwnaeth Cartrefi Cymunedol Cymru roi diweddariad ar yr 'Ymgyrch Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd' yn y cyfarfod. Dilynwyd hyn gan drafodaeth ar y cwestiynau a gyflwynwyd gan gynnwys p'un a yw digartrefedd ieuenctid wedi'i gynnwys yn benodol mewn strategaethau digartrefedd diweddar, anghenion penodol pobl ifanc LGBTQ+ a sut beth fyddai 'dim rhyddhau i ddigartrefedd'.<br>• Rhoddodd PW o Lywodraeth Cymru gyflwyniad ar ddatblygu a gweithredu'r Grant Cymorth Tai yn y dyfodol. Gwnaeth y cyfarfod llawn ystyried y meysydd canlynol: llywodraethu, fformiwla ddyrannu a'r broses gynllunio. Roedd y sesiwn hon yn rhan o gyfres ehangach o ddigwyddiadau ymgynghori ar y grant newydd.<br>• Bydd y cyfarfod SPIN nesaf, a gaiff ei gynnal ym mis Mehefin, yn cynnwys eitemau ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a chomisiynu o Gymorth i Ferched Cymru a thrafodaeth ar brosiect ymchwil Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar gyllid Cefnogi Pobl ar gyfer cynlluniau anabledd dysgu.<br>• Cynhelir pob cyfarfod SPIN yn y dyfodol ar y cyd â Chefnogi Pobl a Digartrefedd.<br><br>**Y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol**<br>• Gofynnodd AL i'r grŵp egluro diben a rôl y Pwyllgor ar hyn o bryd. Mae problem hefyd gyda chynnal rôl y cydgysylltydd datblygu rhanbarthol gan nad oes cyllid wedi'i warantu ar gyfer y swydd. Cadarnhaodd PW fod un o'r cwestiynau a godwyd yn nigwyddiadau ymgysylltu y Grant Cymorth Tai yn ymwneud â gwaith Rhanbarthol. Caiff hyn ei ystyried â'r holl adborth arall. Ar gyfer eleni, dylai RRCau barhau i weithredu eu busnes fel arfer.<br><br>**Gweithgor Llywodraethu**<br>• Nid yw'r grŵp hwn wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl. Caiff y grŵp Llywodraethu ei ddefnyddio i ystyried cynigion a chynnwys posibl ar gyfer dogfen Ganllaw y Grant Cymorth Tai.<br><br>**Grŵp Cyllid ac Ymchwil**<br>• Nid oes gan y grŵp hwn unrhyw gynlluniau ar waith ar hyn o bryd a byddai'n croesawu unrhyw arweiniad gan y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl. Bydd y Bwrdd yn gosod y dasg i'r is-grŵp gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Canlyniadau Sengl a'r strategaeth data.<br><br>**Grŵp Ymchwil a Gwerthuso**<br>• Nid yw'r grŵp wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl ond mae'r aelodau yn cael cyngor ar hyn o bryd ar yr is-grwpiau y dylid ystyried eu dadansoddi ymhellach o fewn y set ddata. | |

| | |
|---|---|
| **Cartrefi Cymunedol Cymru**<br>• Mae adolygiad Cartrefi Cymunedol Cymru o'u Grwpiau Cyflawni Strategol yn dod i ben, lle y maent wedi bod yn adolygu/diweddaru eu Cynlluniau Gwaith unigol ac yn canolbwyntio ar leoliadau/amseroedd y cyfarfodydd er mwyn sicrhau y caiff eu cynllun cyflawni strategol yr effaith orau bosibl. Bydd Cartrefi Cymunedol Cymru yn rhyddhau mwy o fanylion yn fuan.<br>• Gwnaeth is-grŵp Rheoli Tai cyntaf Rhwydwaith Tai yn Gyntaf gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018. Daeth y cyfarfod ag amrywiaeth eang o uwch-reolwyr o gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol sy'n dal stoc at ei gilydd. Cytunwyd y byddai'r sector tai yn cefnogi Rhwydwaith Tai yn Gyntaf; gan ddarparu cymorth o ansawdd uchel a sicrhau ffrwd gyllido gyson.<br>• Bydd y cyfarfod nesaf yn canolbwyntio ar siarter Rheoli Tai arfaethedig Tai yn Gyntaf, a fydd yn disgrifio safonau'r gwasanaethau tai a ddarperir gan ddarparwyr tai sy'n cydweithio â gwasanaethau Tai yn Gyntaf.<br><br>**Cymorth Cymru**<br>• Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, mae Cymorth Cymru wedi bod yn ymwneud llawer â gwaith y Grant Cymorth Tai, fel aelod o'r grŵp llywio ac wedi helpu i drefnu a hwyluso'r digwyddiadau ymgysylltu.<br>• Mae Cymorth Cymru wedi dechrau ar brosiect ymchwil, a ariannwyd yn rhannol gan Oak Foundation a Cymorth Cymru, er mwyn asesu effaith ddynol ac ariannol gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau cymorth sy'n ymwneud â thai yng Nghymru. Caiff y tîm ymchwil ei arwain gan Met Caerdydd ac mae Cymorth Cymru newydd benodi swyddog ymchwil.<br>• Cafodd ail gam y Rhaglen Hyfforddi PATH ei gyflwyno i bobl sy'n gweithio yn y sector digartrefedd, tai a chymorth. Darparwyd hyfforddiant ar ddulliau seicolegol i 650 o bobl ychwanegol erbyn diwedd mis Mawrth, gan adeiladu ar y 1,100+ o bobl a gafodd eu hyfforddi yn 2018.<br>• Mae Cymorth wedi parhau i drefnu a hwyluso Rhwydwaith Tai yn Gyntaf, gan ddod â darparwyr cymorth, landlordiaid, awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill at ei gilydd i gefnogi'r broses o gyflwyno'r modiwl hwn, sy'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.<br>• Mae Cymorth hefyd wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a'r sector i ddatblygu egwyddorion ar gyfer gwasanaethau allgymorth pendant yng Nghymru, fel rhan o Gynllun Gweithredu Cysgu ar y Stryd Llywodraeth Cymru. Daw'r prosiect hwn i ben ym mis Mai 2020.<br>• Maent yn parhau i hwyluso Rhwydwaith Camddefnyddio Sylweddau y Trydydd Sector, a byddant yn parhau â'r gwaith i ddatblygu canllawiau ar gamddefnyddio sylweddau mewn llety â chymorth yn ystod y chwe mis nesaf. | |

| | |
|---|---|
| • Gwnaeth Cymorth gynnal cynhadledd yn ddiweddar ar dai, iechyd a gofal cymdeithasol, gan geisio datblygu a chryfhau'r cysylltiadau rhwng y sectorau hyn ymhellach a chaiff eu Cynhadledd Blynyddol ei chynnal ar 14 Mawrth 2018 yn seiliedig ar y thema 'Herio'r System \| Llunio'r Dyfodol'. | |
| **9. Unrhyw Fater Arall** | |
| Ni chodwyd unrhyw faterion. | |
| **10. Cyfarfod Nesaf** | |
| • Caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ddydd Mawrth 11 Mehefin yn Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd. Bydd y Gweinidog Tai a Llywodraeth newydd, Julie James AC yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod. | |

## Log Camau Gweithredu
### Y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPNAB)

| **Dyddiad y Nodwyd y Cam Gweithredu** | **Manylion y Cam Gweithredu** | **Person sy'n Gyfrifol** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| **1.** 19 Medi 2018 | Cyhoeddiad SAR – gallai canlyniad y penderfyniad atal tenantiaid rhag symud i mewn i waith. HMK i siarad â landlordiaid i ddeall lefel yr effaith. | Harry McKeown | Wedi'i gwblhau |
| **2.** 19 Medi 2018 | Mae menywod sy'n aros mewn llochesi yn cael cymorthdaliadau drwy'r trydydd sector ac yn ychwanegu at y diffyg. PW i gynnal trafodaeth â DWP i gael eglurhad ar y diffiniadau. | Paul Webb | Parhaus |
| **3.** 19 Medi 2018 | Penderfyniad y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal (EIPS) - Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am wybodaeth ar y penderfyniad cyn gynted â phosibl. | Daniel Groves | Wedi'i gwblhau |
| **4.** 19 Medi 2018 | Crynodeb o Adolygiad Blynyddol y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol – anfon copïau o'r adroddiadau at gydgysylltwyr datblygu rhanbarthol | Julie Llewellyn | Wedi'i gwblhau |
| **5.** 19 Medi 2018 | Cofrestr Risg y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl - i'w diweddaru a dileu risg SAR. | Angharad Rogers | Wedi'i gwblhau |
| **6.** | | | |